**JCO300 (a)**
**CYNGOR**

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y cyfarfod a gynhaliwyd am 2.00 p.m. ddydd Iau 26 Medi, Ystafell Teifi, Campws Caerfyrddin

**Aelodau Cyngor PCYDDS a PC:**
Emlyn Dole (Cadeirydd)
Yr Athro Elwen Evans KC (Is-Ganghellor)
Justin Albert
John Edge
Timothy Llewelyn
Nigel Roberts

**Aelodau Cyngor PC:**
Dr Stuart Robb
Deris Williams

**Aelodau Cyngor PCYDDS:**
Natalie Beard
Dr Tracy Cruickshank
Maria Dinu
Yr Athro Kyle Erickson
Dr Deborah Hughes
Rowland Jones
Geraint Roberts
Emlyn Schiavone

**Yn bresennol:**
Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol
Sarah Clark, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chlerc y Cynghorau
Dr Andrew Cornish, Pennaeth, Coleg Sir Gâr
Shône Hughes, Pennaeth Staff
Peter Mannion, Prif Swyddog Gweithredu
Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol
Yr Athro Mirjam Plantinga, PIG (Profiad Myfyrwyr)
Debra Williams PIG (Cysylltiadau Masnachol a Busnes)
Catrin Beard (Cyfieithydd)
Margaret Williams (Ysgrifennydd)
Mark Rainey, Cyfarwyddwr Cyllid PC (ar gfyer eitem 24.30)

Cyn y cyfarfod, cynhaliwyd sesiwn gynllunio strategol, gan ganolbwyntio'n bennaf ar PCYDDS.

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| 24.24 Ymddiheuriadau | Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Geraint Evans, Uzo Iwobi, Dr Liz Siberry, Iwan Thomas. |
| 24.25 Datganiadau o fuddiannau | DERBYNIODD y Cyngor y Datganiadau o Fuddiannau fel y'u nodir yn adroddiad y Clerc (CJO267).<br><br>Gwnaeth y Clerc atgoffa'r aelodau i nodi unrhyw eitemau ar yr agenda y byddai'r buddiannau a ddatganwyd ganddynt yn debygol o ymwneud â nhw. |
| 24.26 Cylch gorchwyl a chynllun gwaith 2024/25 | YSTYRIODD y Cyngor ei gylch gorchwyl a chynllun gwaith (JCO268).<br><br>Adroddodd y Clerc mai'r cynllun gwaith oedd y map drafft o'r busnes a oedd yn cael ei gynnig ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Esboniodd y fethodoleg ddiwygiedig oedd yn cael ei threialu at gyfer cyfarfodydd a phapurau, lle byddai un cyfarfod ac agenda'n cwmpasu'r ddau Gyngor, gyda rhai newidiadau i strwythur yr agenda. Byddai cofnodion ar wahân yn dal i gael eu cynhyrchu ar gyfer y ddau Gyngor. Mewn ymateb i sylwadau aelodau, roedd y daflen flaen wedi cael ei diwygio i ganolbwyntio'n gliriach ar y crynodeb gweithredol ac i sicrhau bod y papurau'n cyfeirio at y Cynllun Busnes<br><br>Nododd y Clerc sylwadau'r aelodau ynghylch codio lliw a chytunwyd i ymchwilio i faterion posibl o ran hygyrchedd. |
| 24.27 Adroddiad y Cadeirydd | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad y Cadeirydd (JCO269).<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am gymryd rhan yng nghyfarfodydd gwerthuso'r llynedd. Byddai'r tîm Llywodraethu yn trefnu'r cylch nesaf o gyfarfodydd cyn hir. |
| 24.28 Adroddiad yr Is-Ganghellor | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad llafar gan yr Is-Ganghellor, gan ganolbwyntio ar faterion PCYDDS (JCO270). |
| 24.29 Adroddiad rheolaeth ariannol ac arian parod | EITEM GYFYNGEDIG yw hon ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod. |
| 24.30 Materion etifeddiaeth PC: Deddf yr Eglwys yng Nghymru | YSTYRIODD y Cyngor adroddiad ar faterion etifeddiaeth PC yn ymwneud ag Ystâd Weddilliol Deddf yr Eglwys yng Nghymru (JCO274)<br><br>Gan gyflwyno'r adroddiad, cyfeiriodd Cyfarwyddwr Cyllid PC at y cefndir o ran sut ddaeth PC yn gyfrifol am y tir a drosglwyddwyd iddi gan yr Eglwys yng Lloegr o dan Deddf yr Eglwys yng Nghymru 1914. Darparwyd sesiwn friffio a diweddariad i'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad ym mis Tachwedd 2022 a gwnaed nifer o benderfyniadau ynglŷn â |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| | gwarediadau. Gwnaeth yr adroddiad cyfredol gynigion ar gyfer gwaredu ar y plotiau sy'n weddill, gan nodi atebolrwydd parhaus PC nes bod yr holl warediadau wedi'u cwblhau.<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor y cynigion a'r argymhellion a gynigiwyd. CYTUNWYD y dylai'r Is-Ganghellor a Chyfarwyddwr Cyllid PC weithredu ar ran y Brifysgol wrth roi cyfarwyddiadau i asiantau tir symud ymlaen â'r adroddiadau gwerthuso a'r argymhellion o ran gwerthu'r plotiau sy'n weddill fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.<br><br>CYTUNODD y Cyngor hefyd y dylid darparu diweddariad yng nghyfarfod mis Mawrth 2025. |
| 24.31<br>Cofnodion | CYMERADWYODD y Cyngor gofnodion anghyfyngedig a chyfyngedig y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2024 (CO277). |
| 24.32<br>Cynllun Dirprwyo | CYMERADWYODD y Cyngor Gynllun Dirprwyo 2024/25 (CO278). |
| 24.33<br>Cyrff Cysylltiol | CYMERADWYODD y Cyngor y rhestr o Gyrff Cysylltiol PC 2024/25 (JCO279). |
| 24.34<br>Gweithdrefn Datgan Buddiannau staff | DERBYNIODD y Cyngor gadarnhad bod y weithdrefn datgan buddiannau staff wedi'i chwblhau (JCO281). |
| 24.35<br>Datgan Buddiannau | Mewn perthynas â thir eglwys PC, nododd Justin Albert mai ef oedd Prif Swyddog Gweithredol Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru adeg y gwarediadau blaenorol. Nododd Rowland Jones ei fuddiannau posibl fel landlord a phrynwr. |
| 24.36<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf | Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 28 Tachwedd 2024 yn Abertawe. |
| | Hysbysodd y Clerc yr aelodau bod sesiynau briffio diwedd prynhawn i aelodau wedi'u hadfer. Byddai rhaglen y flwyddyn yn cael ei dosbarthu cyn hir. |